


BRIGSTOCKE, THOMAS (1809 - 1881), arlunydd



Enw: Thomas Brigstocke
Dyddiad geni: 1809
Dyddiad marw: 1881
Priod: Brigstocke
Rhiant: Mary Brigstocke
Rhiant: David Brigstocke
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arlunydd
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaerniaeth
Awdur: Megan Ellis

Ganwyd 17 Ebrill 1809 yn 61 King Street, Caerfyrddin, yn fab i David a Mary Brigstocke. Pan oedd yn 16 oed anfonwyd ef i ysgol ddarlunio Sass yn 6 Charlotte Street, Bloomsbury, Llundain. Wedi hynny bu'n astudio o dan H. P. Briggs a J. P. Knight cyn treulio wyth mlynedd ym Mharis, Fflorens, Rhufain, a Naples. Yn 1847 treuliodd rai misoedd yn yr Aifft lle y paentiodd bortreadau o Fehemet Ali ac amryw o'i deulu.

Priododd Mrs. Cridland, gwraig weddw, a fu farw o'i flaen ef, a bu ei unig blentyn farw yn ieuanc. Bu ef ei hun farw 11 Mawrth 1881 yn 3 Welbeck Street, Cavendish Square, Llundain, a chladdwyd ef yn Kensal Green.

Cofir amdano'n fwyaf arbennig oherwydd y nifer o bortreadau ganddo o hen deuluoedd adnabyddus De Cymru ac o gymeriadau milwrol ei oes. Paentiodd hefyd amryw o ddarluniau hanesyddol. Dangoswyd 16 o'i ddarluniau yn y Royal Academy yn Llundain rhwng 1843 a 1865, ac yn 1845 gwahoddwyd ef i ddangos ei bortread o'r **Cadfridog Nott** i'r frenhines Victoria.

Y mae darluniau gan Brigstocke ar gael heddiw mewn casgliadau preifat yng Nghymru a Lloegr ac mewn adeiladau cyhoeddus megis y National Portrait Gallery a'r Oriental Club yn Llundain, ac yn neuadd tref Gaerfyrddin a neuadd tref Llanelli. Ceir hefyd ysgythriadau o'i waith yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, yr Amgueddfa Brydeinig, ac yn yr Arts Library, South Kensington.

Awdur

Megan Ellis, (1906 - 2001)

Ffynonellau

Ulrich Thieme a Felix Becker, *Allgemeines Lexicon der Bildenden K nstler*, v, 16

Michael Bryan, *Bryan's dictionary of painters and engravers*, i, 195

Oxford Dictionary of National Biography

T. M. Rees, *Welsh painters, engravers and sculptors, 1527 1911* (1912)

Darllen Pellach

T. Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907), t.32

Gweithiau

ArtUK: Thomas Brigstocke 1809-1881

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 95797137

Wikidata: Q7787897

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Ellis, M., (1953). BRIGSTOCKE, THOMAS (1809 - 1881), arlunydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 8 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BRIG-THO-1809>

Prifwrdd

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwyd gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government